# Disgrifiad Swydd Ymddiriedolwr

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | Ymddiriedolwr |
| **Taliadau:** | Mae'r rôl yn wirfoddol ond bydd costau allan o boced yn cael eu had-dalu. |
| **Tymor y Swydd:** | 3 blynedd ac am uchafswm o ddwy flynedd. |
| **Atebolrwydd:** | Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr |
| **Pwrpas y Swydd:** | Cefnogi ac arwain Anabledd Dysgu Cymru (ADC) i gyflawni ein gwaith yn unol â'n dogfennau llywodraethiant.<br><br>Mae gan bob ymddiriedolwr gyfrifoldeb cyfartal. |

## 1. Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

1.1 Gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio o fewn y gyfraith ac yn dilyn y rheolau yn ein dogfennau llywodraethiant.

1.2 Gwneud yn siŵr bod unrhyw benderfyniadau a wneir er budd gorau ADC ac yn unol â'i ddiben.

1.3 Dewis Swyddogion Anrhydeddus: Cadeirydd a Thrysorydd.

1.4 Gwneud yn siŵr ein bod yn gwario ein harian yn iawn ac at y diben y bwriedir iddo.

1.5 Cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a'r gyllideb flynyddol

1.6 Gwneud yn siŵr ein bod yn gofalu am ein staff.

1.7 Gwneud yn siŵr bod y Prif Swyddog Gweithredol yn cael ei chefnogi a'i goruchwylio yn ei rôl a'i pherfformiad a arfarnwyd gan y Cadeirydd.

1.8 Dirprwyo gwaith i'n gweithwyr.

1.9 Dilyn y polisïau y cytunwyd arnynt: Rhestr o Bolisïau Awdurdodedig, Risg a Chronfeydd Wrth Gefn, Rheolau Sefydlog a Chylch Gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd ac is-grwpiau a'n Dogfennau Llywodraethiant

1.10 Monitro ein cynnydd tuag at ein cynllun strategol a'n cefnogaeth a chynnig cyngor i'r Prif Swyddog Gweithredol ar ba waith y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol.

1.11 Cynrychioli ADC yn ôl y gofyn.

1.12 Cymryd rhan mewn adolygu perfformiad ymddiriedolwyr.

1.13 Gofyn am gyngor proffesiynol allanol pan fo angen.

1.14 Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â bod yn ymddiriedolwr.

## 2. Cyfrifoldebau Personol

2.1 Ymarfer gofal a sgiliau rhesymol i sicrhau bod ADC yn cael ei redeg yn dda ac yn effeithlon.

2.2 Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd ac is-grwpiau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y gwnaethoch ddewis bod yn rhan ohonynt. Anfon ymddiheuriadau os na allwch ddod i gyfarfod.

2.3 Gweithredu yn unol â'r Cod Ymddygiad Ymddiriedolwyr.

2.4 Trin gwybodaeth a roddir i chi fel Ymddiriedolwr yn gyfrinachol.

2.5 Cynnal Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ADC.

2.6 Hysbysu'r Cadeirydd ar ddechrau cyfarfod os oes gwrthdaro buddiannau.

Anabledd Dysgu Cymru
Hydref 2023